Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Mike Hedges
Cadeirydd Pwyllgor
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion
Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Mehefin 2017

Annwyl Mike,

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi bod yn craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 Cyfoeth Naturiol Cymru ac wedi cyhoeddi adroddiad ar 15 Mehefin. Gwnaeth y Pwyllgor y gwaith craffu hwn yn dilyn cymhwyso barn reoleiddio Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cysylltiad â chontractau gwerthu pren i weithredwr melin lifo ym mis Mai 2014.

Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar ddyfarnu contractau gwerthu pren, achubodd y Pwyllgor ar y cyfle i ystyried nifer o faterion yn ymwneud â llywodraethu a rheoli yn Cyfoeth Naturiol Cymru.  Roedd y gwaith hwn yn ystyried Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol - Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru - a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Chwefror 2016. Nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol wedi gallu trefnu unrhyw sesiynau tystiolaeth ar yr adroddiad hwn gan fod y Cynulliad wedi diddymu ym mis Ebrill 2016. Mae barn y Pwyllgor ar faterion llywodraethu a rheoli wedi'i chynnwys yn yr atodiad.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 22 Mai, cynigiodd Cyfoeth Naturiol Cymru anfon diweddariad ar eu dangosyddion perfformiad ynghyd â chymariaethau fesul blwyddyn i ddangos tueddiadau mewn perfformiad er gwybodaeth. Rwyf wedi atodi copi o'r llythyr er gwybodaeth

Rwy'n ymwybodol bod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn craffu'n flynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru yn ystod tymor yr hydref ac rwy'n gobeithio y gellir nodi sylwadau fy Mhwyllgor ar ddatblygu Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod gwaith craffu blynyddol eich Pwyllgor ar Gyfoeth Naturiol Cymru yn nhymor yr hydref.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/2016.**

1.Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r Pwyllgor graffu ar adroddiad a chyfrifon blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a llofnodwyd y farn archwilio ar 2 Mawrth 2017. Fel y rhan fwyaf o archwiliadau, nid oedd y naratif rhagarweiniol yn destun archwiliad, er bod yr archwilydd yn ystyried a oes anghysondebau materol yn y cyfrifon.

**Defnyddio Gwybodaeth Ariannol**

2.Gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru egluro eu dull o wneud gwybodaeth ariannol yn fwy hygyrch ac wedi'i hintegreiddio â strategaeth Llywodraeth Cymru ac yn benodol sut y byddant yn cydbwyso gweithredu eu cynllun strategol hirdymor ar gyfer 2017-22 gyda'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol Llywodraeth Cymru.

3.Dywedodd Dr Emyr Roberts, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru, wrthym fod ganddynt berthynas barhaus â Llywodraeth Cymru ac yn ymwybodol o ddatblygiadau polisi gan weithio'n agos i sicrhau y gweithredir blaenoriaethau a nodwyd yn y llythyr cylch gwaith.[1]

**Llywodraethu a strategaeth**

4.Gwnaethom holi Cyfoeth Naturiol Cymru am eu fframwaith llywodraethu mewnol a sut mae hyn yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Swyddog Cyfrifyddu gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol.

5.Eglurodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru, Kevin Ingram, fod gan Gyfoeth Naturiol Cymru fframwaith llywodraethu wedi'i ddatblygu'n dda gan gynnwys sefydlu pwyllgor archwilio a risg a phwyllgor taliadau i graffu ar rannau o'r busnes, strwythurau uwch reoli a llinellau dirprwyo clir yn y sefydliad.[2] Dywedwyd wrthym fod yna dîm archwilio mewnol wedi'i sefydlu ochr yn ochr â gwaith craffu gan Swyddfa Archwilio Cymru.

---

[1] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 28 Mawrth 2017, paragraff 158

[2] Cofnod y Trafodion, 28 Mawrth 2017, paragraff 162

6.Roedd gennym ddiddordeb gweld p'un a oedd rhaglen archwilio mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru wedi canfod unrhyw broblemau rheoli sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Dywedwyd wrthym mai un maes lle roedd angen ei gryfhau oedd rheoli risg. Dywedodd Mr Ingram:

'We already have a corporate risk register and different directorate risk registers, but we had a process there of sort of refreshing that and just checking those risks and corporate risks are clearly aligned with the outcomes that we're achieving'.[3]

**Y prif risgiau**

7.Mae'r Adroddiad Blynyddol yn nodi'r prif risgiau sy'n wynebu Cyfoeth Naturiol Cymru, ac un ohonynt yw ymateb i ostyngiad tymor byr yn ein cymorth grant a chynllunio ar gyfer heriau ariannol parhaus. Gofynnom i Gyfoeth Naturiol Cymru pa effaith oeddent yn credu y gallai toriadau yn y gyllideb ei chael ar allu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei amcanion.

8.Amlygodd Dr Roberts fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael tua 15 y cant o doriadau yn eu cymorth grant dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a oedd yn anochel yn golygu risgiau i'w gwasanaethau.[4] Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud y canlynol:

'…set up a review throughout the organisation of the activities that we carry out. So we call it 'the business area reviews'. We've got eight different projects, looking across the board at all the services that we offer, including enabling services as well. So, we're getting a picture of what we're doing, what our priorities are. In some areas, yes there will be an increase in risk, but we are managing those, we're putting mitigating actions in to actually manage those risks properly'.[5]

9.Roeddem am ganfod effaith ymarferol y gostyngiadau mewn cyllideb ar fusnes bob dydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn benodol o ran gallu'r sefydliad i ddarparu cyngor arbenigol. Er enghraifft, cyfeiriwyd at forlyn llanw Abertawe, sef maes sydd wedi achos dadlau cyhoeddus. Deallwn ei bod wedi cymryd bron i 3 blynedd ers i'r morlyn llanw gyflwyno cais i Gyfoeth Naturiol Cymru am drwydded bysgota

---

[3] Cofnod y Trafodion, 28 Mawrth 2017, paragraff 164

[4] Cofnod y Trafodion, 28 Mawrth 2017, paragraff 178

[5] Cofnod y Trafodion, 28 Mawrth 2017, paragraff 178

a bu oedi wrth ddod i benderfyniad, a allai rhoi'r prosiect mewn perygl. Gofynnwyd am eglurhad pam ei bod wedi cymryd mor hir i wneud penderfyniad ac nad oedd unrhyw arwydd o benderfyniad a ph'un a oedd yr oedi hwn yn gysylltiedig ag adnoddau.

10.Cawsom wybod gan Dr Roberts nad oedd yr oedi yn ymwneud ag adnoddau a bod y trafodaethau â chwmni morlyn llanw bae Abertawe ynghylch tystiolaeth am eu cynnig yn broses eithaf trwyadl, a bennir gan reoliadau Ewropeaidd. Ar ben hynny, gan nad oes unrhyw un wedi adeiladu morlyn llanw fel hyn o'r blaen, byddai penderfyniadau yn cael eu heffeithio gan fodelu ar beth allai ddigwydd yn enwedig mewn cysylltiad ag ymfudo pysgod. Ychwanegodd Dr Roberts fod trafodaethau yn parhau i fynd rhagddynt, yn ymwneud ag arbenigwyr o'r cwmni a Cyfoeth Naturiol Cymru, a hyd nes bydd y trafodaethau hyn yn dod i ben, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu parhau â'r broses trwyddedu morol. Codwyd pryderon y gallai unrhyw oedi wrth symud ymlaen â'r materion hyn fod yn rhwystr.[6]

## Deddfwriaeth newydd

11.Mae adroddiad blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio at y canlynol:

"Bydd rhai enghreifftiau o'n cyd-destun newidiol yn ein gweld yn gweithio i weithredu gofynion deddfwriaeth newydd, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 a'r Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru); mynd i'r afael â heriau amgylcheddol fel ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, rhywogaethau ymledol, ansawdd yr aer a newid yn yr hinsawdd yn ogystal â rheoli ein gweithrediadau ein hunain i sicrhau ein bod yn gweithio o fewn ein gallu ac yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid – Llywodraeth Cymru, sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill, busnes a diwydiant, dinasyddion a chymunedau i ddatblygu modelau cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gwahanol".[7]

12.Gwnaethom holi beth oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a sut byddai'r berthynas rhwng y tîm gweithredol a'r bwrdd yn hwyluso hynny.

---

[6] Cofnod y Trafodion, 28 Mawrth 2017, paragraff 180

[7] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru 2015-16, tudalen 7 (Mawrth 2017)

13.Esboniodd Dr Roberts fod y Bwrdd yn ymwneud llawer â'r maes hwn a diddordeb ynddo a'u bod yn cael gwybod am y datblygiadau yn rheolaidd. Ychwanegodd fod rhaglen waith yn mynd rhagddi i weithredu gofynion y Ddeddf, er enghraifft, gan wneud yn siŵr bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2,015 wedi'i gynnwys yn y cynllun corfforaethol.[8]

## Dangosyddion perfformiad allweddol

14.Fel y nodwyd ar dudalen 7 yr Adroddiad Blynyddol, fel rhan o Fframwaith Perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru, mae dangosfwrdd ar gyfer olrhain tueddiadau tymor hwy drwy ddangosyddion y mae eu gwaith yn cyfrannu ato, yn ogystal â mesurau gweithredol blynyddol y maent yn eu rheoli. Eleni, allan o 41 o ddangosyddion a mesurau, roedd 28 wedi cyrraedd y targed, roedd naw o fewn 10% o'r targed, ac nid oedd pedwar wedi cyrraedd lle roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu bod. Caiff cynnydd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fonitro gan ei Fwrdd a Llywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar y wefan dair gwaith y flwyddyn.

15.Roeddem yn awyddus i ddeall mwy am berfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cysylltiad ag absenoldeb salwch. Nodwyd bod yr adroddiad blynyddol yn dangos absenoldeb salwch cyfartalog o 5.2 diwrnod i bob cyflogai, sy'n fwy na'r targed ac yn cymharu'n ffafriol â nifer o sefydliadau sydd wedi bod o'n blaen i edrych ar eu cyfrifon.[9] O ystyried yr anawsterau sy'n deillio o uno tri sefydliad unigol i ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru a'r canlyniadau gwael sy'n codi o arolygon staff, rydym o'r farn bod hwn yn gyflawniad nodedig. Gofynnwyd i Dr Roberts pa wersi y gellid dysgu o'u hagwedd a'u rhannu â sefydliadau eraill.

16.Croesawodd Dr Roberts yr adborth a soniodd fod y sefydliad yn ymdopi'n dda yn enwedig yn erbyn cefndir o newid. Ychwanegodd:

'We are particularly strong, I think, in our well-being. So we run a lot of support for members of staff who may be ill or suffering from stress or something like that. So, there's a very high degree of awareness within the organisation. I think

---

[8] Cofnod y Trafodion, 28 Mawrth 2017, paragraff 209

[9] Cofnod y Trafodion, 28 Mawrth 2017, paragraff 231

that's really important for an organisation that's going through change, that we do invest in that'.[10]

17. Mewn gohebiaeth arall, cawsom wybod bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu a gweithredu nifer o bolisïau a gweithdrefnau i reoli absenoldeb salwch staff gan gynnwys mynediad i staff i ddarpariaeth gwasanaeth iechyd galwedigaethol a chymorth cyfloegion.[11] Clywsom hefyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i reoli risgiau absenoldeb iechyd meddwl drwy ddarparu hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl a hyfforddiant gwydnwch emosiynol, canolbwyntio ar wella ansawdd a maint data absenoldeb i ddatblygu'r ffordd maent yn monitro a rheoli absenoldeb salwch ac wedi defnyddio sawl sianeli cyfathrebu mewnol i godi ymwybyddiaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau, system gofnodi newydd a darpariaethau cymorth i bob aelod o staff Cyfoeth Naturiol Cymru.

---

[10] Cofnod y Trafodion, 28 Mawrth 2017, paragraff 232

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-15-17 Papur 4, 22 Mai 2017